

Cofnodion cyfarfod hybrid y **PWYLLGOR CYNLLUNIO** a gynhaliwyd nos Fercher, 15 Gorffennaf 2026, yn dilyn cyfarfod y Cyngor a'i ragflaenodd.

PRESENNOL

Y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr S. Feeney, C. L. Jones, K. R. Jones, W. Price, Ms R. Roberts, Ms V. Roberts, A. J. Rutherford, D. Simmons, T. Thomas ac A. Walker.

Hefyd yn bresennol:

A. R. James (arsylwr)

Mrs H. J. Mead – Clerc y Dref

Mrs T. A. Jones – Dirprwy Glerc y Dref

5. YMDDIHEURIADAU

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs D. L. King a B. Mellor.

6. DATGAN BUDDIANNAU

Gofynnodd y Cadeirydd a oedd gan yr aelodau unrhyw fuddiant personol a/neu fuddiant sy'n rhagfarnu i'w ddatgan yng nghyswllt unrhyw fusnes i'r ystyried ar yr agenda.

Datganodd y Cynghorydd W. Price fuddiant personol yng nghais rhif (i) gan ei fod yn byw yn yr un stryd â'r ymgeisydd, a pharhaodd yn y cyfarfod gan gymryd rhan lawn yn y trafodaethau a'r pleidleisio ar y mater.

7. CEISIADAU CYNLLUNIO

Ystyriodd yr aelodau'r ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd fel y dangosir isod a **PHENDERFYNWYD** fel y nodir wrth y cais.

Nodyn 1: Cynghorir yr Awdurdod Cynllunio Lleol fod Cyngor Tref y Rhyl yn dymuno datgan, ble bo'n briodol, y dylai fod yn ofynnol i'r holl geisiadau a restrir isod sy'n ymwneud â lleoliadau fel swyddfeydd, busnesau, siopau ac archfarchnadoedd i osod arwyddion dwyieithog o amlygrwydd cydradd, i adlewyrchu natur ieithyddol ardal y Rhyl.

Nodyn 2: Mae Cyngor Tref y Rhyl a Chyngor Sir Ddinbych wedi cyhoeddi argyfwng hinsawdd yn ffurfiol yn ddiweddar ac felly byddai'n dymuno bod datblygwyr a'r Awdurdod Cynllunio yn cymryd camau i sicrhau bod yr holl geisiadau maint mawr yn y dyfodol yn uchafu'r defnydd o dechnolegau sy'n bodoli eisoes i leihau'r effaith negyddol ar yr hinsawdd.

RHESTR Y CEISIADAU CYNLLUNIO

i.	<u>LLEOLIAD Y SAFLE:</u> 14 Oaklea Court, Y Rhyl, Sir Ddinbych, LL18 4NP <u>WARD:</u> Trellewelyn
----	--

	<u>CYNGHORWYR Y WARD:</u> Mrs M. A. Blakeley Walker W. Price Ms V. Roberts <u>RHIF Y CAIS:</u> 45/2026/0269/HH <u>DISGRIFIAD:</u> Adeiladu estyniad un llawr i du ôl yr annedd ac adeiladu garej newydd ar wahân <u>YMGEISYDD:</u> Mrs Monica Freemantle <u>PENDERFYNIAD:</u> <i>Dim gwrthwynebiad</i>
ii.	<u>LLEOLIAD Y SAFLE:</u> Cartref Nyrsio Preswylfa, 20 Ffordd Russell, Y Rhyl, Sir Ddinbych, LL18 3DD <u>WARD:</u> Plastirion <u>CYNGHORWYR Y WARD:</u> Mrs J. M. Evans K. R. Jones <u>RHIF Y CAIS:</u> 45/2026/0270/TP <u>DISGRIFIAD:</u> Aildocio coed sy'n ddarostyngedig i Orchymyn Cadw Coed <u>YMGEISYDD:</u> Mr Hall (Akari Care Cymru Ltd) <u>PENDERFYNIAD:</u> <i>Dim gwrthwynebiad</i>
iii.	<u>LLEOLIAD Y SAFLE:</u> Blue Moon, 19 - 23 Ffordd y Dyffryn, Y Rhyl, Sir Ddinbych, LL18 2BT <u>WARD:</u> Pendyffryn <u>CYNGHORWYR Y WARD:</u> A. J. Rutherford D. Simmons <u>RHIF Y CAIS:</u> 45/2024/1447/PF <u>DISGRIFIAD:</u> Newid defnydd tafarn i ffurfio tair uned fanwerthu Dosbarth A1 ar lefel y ddaear a ffurfio dau fflat hunangynhwysol ychwanegol ar y llawr cyntaf a gwaith cysylltiedig <u>YMGEISYDD:</u> Mrs Ramandeep Kaur <u>PENDERFYNIAD:</u> <i>Dim gwrthwynebiad</i>
iv	<u>LLEOLIAD Y SAFLE:</u> 8 Llys Bodnant, Y Rhyl, Sir Ddinbych, LL18 4DQ <u>WARD:</u> Tŷ Newydd <u>CYNGHORWYR Y WARD:</u> M. Blackwell A. Walker Miss C. L. Williams

	<u>RHIF Y CAIS:</u> 45/2026/0284/HH <u>DISGRIFIAD:</u> Gwneud addasiadau ac adeiladu estyniad un llawr i flaen yr annedd (cynllun diwygiedig i'r un a gymeradwywyd o dan gyfeirnod 45/2025/0292/HH) <u>YMGEISYDD:</u> Ben Roberts <u>PENDERFYNIAD:</u> <i>Dim gwrthwynebiad</i>
	<u>LLEOLIAD Y SAFLE:</u> Pizza Hut, Parc Manwerthu Clwyd, Rhuddlan, Y Rhyl, Sir Ddinbych, LL18 2TJ <u>WARD:</u> Derwen <u>CYNGHORWYR Y WARD:</u> Mrs E. M. Chard Mrs S. L. Connolly T. Thomas <u>RHIF Y CAIS:</u> 45/2026/0285/PF <u>DISGRIFIAD:</u> Rhoi rhaniad i ffurfio dwy uned, addasiadau allanol yn cynnwys dymchwel y fynedfa sy'n bodoli, ffurfio mynedfeydd newydd, adeiladu storfa wastraff newydd a gwaith cysylltiedig <u>YMGEISYDD:</u> Peter Brown (RI MDC UK134 Limited) <u>PENDERFYNIAD:</u> <i>Dim gwrthwynebiad</i>

8. **DIWEDD Y CYFARFOD**

Gan nad oedd rhagor o eitemau busnes i'w trafod, cyhoeddodd y Cadeirydd ddiwedd y cyfarfod.

Llofnod:

Dyddiad: